


nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Ein hadroddiad diweddaraf am nyrsio a bydwreigiaeth yn y Deyrnas Unedig

Ebrill i Medi 2024



# Gwybodaeth am y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ydyn ni, neu'r NMC yn fyr.




Rydyn ni'n cadw rhestr o'r holl **nyrsys** a **bydwragedd** yn y Deyrnas Unedig, a **chymdeithion nyrsio** yn Lloegr. **Cofrestr** ydy'r enw ar y rhestr yma.



Mae **nyrsys** yn helpu pobl sy'n sâl, wedi'u hanafu neu angen gofal.



Mae **bydwragedd** yn helpu pobl i roi genedigaeth.



Mae **cymdeithion nyrsio** yn staff iechyd sy'n gweithio gyda nyrsys yn Lloegr.


# Gwybodaeth am ein hadroddiad




Bob 6 mis, rydyn ni’n edrych ar y wybodaeth sydd gennym ni am bawb ar y gofrestr.




Wedyn, rydyn ni’n ysgrifennu adroddiad am y pethau rydyn ni wedi eu dysgu.




Mae’r adroddiad yma’n edrych ar y wybodaeth rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024.

# Nifer y bobl ar y gofrest




Mae 14 mil a 949 yn fwy o nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio ar ein cofrestr erbyn hyn.

I gyd gyda'i gilydd, mae ychydig dros 841 mil o bobl ar y gofrestr.



Mae ychydig dros 778 mil o nyrsys.



Mae ychydig dros 45 mil
o fydwragedd.



Mae ychydig dros 11 mil a 500 o gymdeithion nyrsio.



Mae ychydig dros 6 mil yn nyrs ac yn fydwraig.

# O ble mae'r bobl ar y gofrestr yn dod



Ers mis Ebrill, mae bron i 5 mil yn fwy o bobl o'r Deyrnas Unedig ar y gofrestr.




Erbyn hyn, mae ychydig dros 641 mil o bobl o'r Deyrnas Unedig ar y gofrestr.



Ers mis Ebrill, mae ychydig dros 10 mil yn fwy o bobl o wledydd ar wahân i'r Deyrnas Unedig.




Erbyn hyn, mae ychydig dros 200 mil o bobl o wledydd ar wahân i'r Deyrnas Unedig ar y gofrestr.



O’r 200 mil hyn:

- Roedd ychydig dros 50 mil yn dod o Ynysoedd Philippines

ac



- Roedd tua 67 mil a 500 yn dod o India.




## Pobl yn ymuno â’r gofrestr ac yn gadael y gofrestr

Mae llai o bobl yn ymuno â’r gofrestr.




Ers mis Ebrill, roedd dros 27 mil o bobl wedi ymuno â’n cofrestr am y tro cyntaf.




Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2023, roedd dros 30 mil o bobl wedi ymuno am y tro cyntaf.




Mae mwy o bobl yn gadael y gofrestr.




Ers mis Ebrill, roedd dros 14 mil o bobl wedi gadael y gofrestr.




Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2023, roedd dros 13 mil o bobl wedi gadael y gofrestr.

## Gwahanol fathau o nyrsys ar y gofrestr



Roedd 154 yn fwy o nyrsys anabledd dysgu.



Roedd bron i 2 fil a 600 yn fwy o nyrsys iechyd meddwl.

## Ethnigrwydd y bobl ar y gofrestr




Eich **ethnigrwydd** ydy eich hil, eich cefndir a'ch diwylliant.



Mae dros 551 mil o bobl ar y gofrestr yn dweud mai pobl wyn ydyn nhw.



Mae bron i 144 mil o bobl yn dweud mai Asiaidd ydyn nhw.



Mae bron i 105 mil o bobl yn dweud mai pobl Ddu ydyn nhw.



Mae bron i 7 mil a 500 o bobl yn dweud mai hil gymysg ydyn nhw.

# Rhywedd y bobl ar y gofrestr



Ystyr **rhywedd** ydy ai dyn neu dynes ydych chi.



Mae bron i 94 mil o bobl ar ein cofrestr yn ddynion.



Mae bron i 747 mil o bobl ar ein cofrestr yn ferched.



Doedd 28 o bobl ddim eisiau dweud beth ydy eu rhywedd.

nmc
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).

23 Portland Place, Llundain W1B 1PZ
Ff 020 7637 7181
www.nmc.org.uk